Mae'r cofnodion hyn yn destun cymeradwyaeth fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archifau Morgannwg

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod y Cydbwyllgor Archifau Morgannwg a gynhaliwyd yn Archifau Morgannwg - Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd ar Dydd Gwener, 22 Mai 2020 yn 2.00 pm.

Yn bressenol:

| | |
|---|---|
| Aelodau: | John, Cyngor Bro Morgannwg (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Colbran, Cynor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (Dirprwy Gadeirydd)<br>Burnett, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cowan, Cyngor Caerdydd<br>Cunnah, Cyngor Caerdydd<br>Cynghorwyr George, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Henshaw, Cyngor Caerdydd<br>Jarvie, Cyngor Bro Morgannwg<br>K Jones, Cyngor Caerdydd<br>R Lewis, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Y Cynghorydd Wendy Lewis, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Robson, Cyngor Caerdydd |
| Swyddogion yn bresennol: | |

32 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Smith, B Jones a Higgs.

33 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

34 : COFNODION

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol yn amodol ar gywiro dau wall teipograffyddol o dan unrhyw fater arall.

35 : ADRODDIAD AR GYFER Y CYFNOD - 1 MAWRTH 2020 TAN 30 EBRILL 2020

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith, ymweliadau a chyflawniadau'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod 1 Mawrth 2020 – 30 Ebrill 2020; y Dangosfwrdd Amcanion, Atodiadau sy'n rhestru derbyniadau nodedig, gwybodaeth am gasgliadau a'r ymholiadau diddorol.

I grynhoi, eglurodd yr Archifydd fod y ddeufis diwethaf ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor wedi bod yn anhygoel. Mae'r staff wedi ymdopi'n rhyfeddol o dda gyda'r newidiadau a orfodwyd a'r 'arfer newydd' o weithio gartref o ganlyniad i Covid-19.

Maent wedi bod yn hynod gefnogol o archifydd newydd Morgannwg, er bod rhaid cysylltu dros e-bost, dros y ffôn neu drwy alwad fideo. Yn amlwg, nid yw cynnydd mewn nifer o feysydd wedi bod yn bosibl, ond mae'r staff yn ymdrechu i'r eithaf i gadw pethau i symud ymlaen ac yn cynllunio ar gyfer ailagor y gwasanaeth, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Mynegodd yr Aelodau eu diolchiadau a'u diolchgarwch i'r holl staff ac i Archifydd Morgannwg am gyflwyno'r adroddiad i'r Cydbwyllgor mewn cyfnod mor anodd.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi'r adroddiad.

36 : ADRODDIAD ALLDRO ARCHIFAU MORGANNWG 2019/20

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad yn parhau ar yr un fformat ag a dderbyniwyd yn flaenorol, ac nad oedd wedi'i ailfformatio fel y trafodwyd yn y cyfarfod blaenorol. Dywedodd y swyddogion fod hyn oherwydd nad oeddent yn gallu cyfarfod yn bersonol i benderfynu ar y fformat newydd a hefyd fel bod holl adroddiadau 2019/20 yn yr un fformat er cysondeb.

Diolchodd y swyddogion i'r Aelodau am gytuno i gyfarfod yn gynharach er mwyn i'r cyfrifon gael eu cau yn unol â dyddiadau cau Swyddfa Archwilio Cymru.

Crynhowyd y sefyllfa alldro derfynol ar gyfer yr Aelodau yn y tabl isod:

| | **Cyllideb** £ | **Gwirioneddol** £ | **Amrywiant** £ |
|---|---|---|---|
| Gwariant | 887,100 | 907,062 | 19,962 |
| Incwm | (233,100) | (253,062) | (19,962) |
| Gwariant Net | 654,000 | 654,000 | 0 |

Amlinellodd y swyddogion bwyntiau allweddol yr adroddiad gan gynnwys costau gweithwyr, costau cyfleustodau a chostau eiddo a chontract. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y bu gorwariant bach mewn costau trafnidiaeth a hefyd mewn costau cyflenwadau a gwasanaethau. Amlinellir y manylion yn Atodiad 1 ond roedd y gorwariant yn cynnwys atgyweiriad oedd angen ei wneud ar y peiriant gwneud bocsys yn ogystal â chostau cadwraeth ychwanegol, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu talu gan gyllid grant.

Mewn perthynas ag incwm, cynghorwyd yr Aelodau fod yr incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd wrth i Archifau Morgannwg dderbyn £253,062 o gymharu â'r ffigwr o £233,100 a gyllidebwyd. Er gwaethaf y gostyngiad yn incwm Wellcome Trust (£34,627) oherwydd bod aelodau o staff a ariannwyd yn gadael cyflogaeth, yr amrywiant ychwanegol cyffredinol o £19,962 oedd yn bennaf oherwydd cynnydd mewn ffioedd ac incwm amrywiol (£104,296). Mae'r amrywiant mawr hwn yn cynnwys dyfarniad hwyr o grant New Burdens gan yr Archifau Cenedlaethol o £87,343 yn seiliedig ar nifer yr eitemau a dderbyniwyd gan yr Archifau yn ogystal â thaliad o £18,998 gan Pilgrim's Trust yn rhan o broject a ariannwyd gan grant.

**12.** Atgoffwyd yr Aelodau y cytunwyd yn 2015/16 y tynnid £100,000 o’r gronfeydd wrth gefn ac y byddai hyn yn cael ei leihau gan £25,000 bob blwyddyn wrth symud ymlaen. Yn 2019/20, roeddem yn disgwyl tynnu £50,000 i fantoli'r gyllideb a thalu costau annisgwyl drwy gydol y flwyddyn. Oherwydd mwy o incwm a dderbyniwyd tua diwedd y flwyddyn, dim ond £1,584 oedd angen ei dynnu, gan adael balans o £174,385 yn y gronfa wrth gefn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

| **<u>Defnydd o Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol Archifau Morgannwg</u>** | **<u>£</u>** |
|---|---:|
| Balans a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2019 | 175,969 |
| Llai Arian a Dynnwyd o’r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol | (1,584) |
| Trosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **174,385** |

Mae'r £1,584 yn y tabl uchod yn cynrychioli arian a dynnwyd o'r cronfeydd wrth gefn i dalu am falans gwariant yn ystod y flwyddyn nas talwyd gan gyfraniadau Aelodau'r Awdurdod Lleol. Y targed ar gyfer 2020/21 o hyd yw tynnu £50,000 o’r Gronfa Wrth Gefn. Er gwaethaf yr ymdrechion i ddiddymu'r angen i dynnu arian, mae'r bylchau ariannu cynyddol bob blwyddyn yn golygu y bydd hyn yn fwy anodd wrth symud ymlaen a bydd angen ei fonitro yn y dyfodol. Er gwaethaf yr hysbysiad hwyr o ddyfarnu'r grant New Burdens yn 2019/20, ni ellir cymryd y digwyddir hyn bob blwyddyn ac mae'n dibynnu ar nifer yr eitemau sy'n cael eu derbyn.

Eglurodd y swyddogion nad ywSwyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau archwilio'r cyfrifon eto ond bydd y Datganiad Blynyddol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am 20 diwrnod gwaith llawn ym mis Mehefin (bydd y dyddiadau yn unol ag arddangosfa Cyngor Caerdydd, y bwriedir ei dechrau ar 16 Mehefin ar hyn o bryd).

Eglurodd y swyddogion fod Archifau Morgannwg, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, wedi cael eu heffeithio yn ystod mis Mawrth gan COVID-19. O ganlyniad, caewyd drysau'r adeilad i'r cyhoedd ar 19 Mawrth 2020 er diogelwch staff ac ymwelwyr a byddant yn aros ar gau tra bod amgylchiadau ac arferion gwaith yn cael eu monitro'n barhaus.

O ganlyniad i gau’r adeilad, bu'n rhaid canslo ystafelloedd cyfarfod a gadwyd gan arwain at golli'r incwm o logi ystafelloedd a lluniaeth yn ystod y pythefnos diwethaf ym mis Mawrth ac o fis Ebrill i fis Mehefin. Ni wyddys am fwy o incwm a gollwyd eto ond mae gwaith wedi'i wneud i nodi colledion posibl dros y misoedd nesaf.

Fel y corff arweiniol, mae Cyngor Caerdydd yn cofnodi holl wariant ychwanegol Archifau Morgannwg a'r posibilrwydd o’r Archifau’n colli incwm o ganlyniad i COVID-19. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei choladu yn rhan o ymarfer cyffredinol i weld a all Llywodraeth Cymru dalu am unrhyw golledion. Fodd bynnag, nid yw canlyniad hyn yn hysbys eto ac mae'n bwysig nodi na ellir cymryd y caiff colledion o'r fath eu hadennill ar hyn o bryd.

Bydd y mater yn parhau i gael ei asesu yn rhan o broses fonitro 2020/21 a chaiff y wybodaeth ddiweddaraf ei darparu mewn cyfarfodydd Pwyllgor yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan yr Aelodau:

Gofynnodd yr Aelodau ynghylch mater y gyfradd ddŵr ac a fu unrhyw drafodaeth ynghylch adennill rhai o'r costau. Eglurodd y swyddogion fod yr adran gyfreithiol yn ymdrin â hyn, a byddai'n cysylltu â'r Tŷ Chwaraeon i weld a fyddai'n fodlon rhannu ei filiau â'r Archifau. Cytunodd y swyddogion i gael y diweddaraf ar hyn gan yr adran gyfreithiol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at sefyllfa Covid-19 gan ofyn, pe bai'r Archifau mewn trafferth go iawn, a fyddai modd pennu cyllideb ddiwygiedig neu amgen ym mis Medi. Eglurodd y swyddogion y byddent yn cymryd yr awenau o'r hyn y mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud, ceid y diweddaraf ar hyn a byddai'r Aelodau'n cael eu hysbysu.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Archifau'n gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi Llywodraeth Cymru oherwydd argyfwng Covid-19. Eglurodd y swyddogion eu bod wedi bod yn casglu gwybodaeth am incwm a gollwyd a gwariant ychwanegol ac y byddent yn gweld a fyddent yn gymwys i wneud cais, byddai'r Aelodau'n cael eu hysbysu.

Gofynnodd y Cadeirydd fod adroddiad diweddaru ar effeithiau Covid-19 gael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Medi'r Cydbwyllgor.

PENDERFYNWYD:

I. Nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer 2019/20.
II. Nodi a llofnodi Datganiad Blynyddol drafft Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015/16 sydd wedi'i atodi.

37 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 11 MEDI 2020